**EDT2 07-04 (draft min)**

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion Drafft

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 13 Mai 2004 |
| **Amser** | 2.00 hyd 5.30 |
| **Lleoliad** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

## Yn bresennol

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| Dave Thomas | Pennaeth yr Uned Trafnidiaeth Gyhoeddus |
| Mike Spearing | Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus |
| Matthew Quinn | Pennaeth, Yr Uned Polisi Strategol |
| Dr Ron Loveland | Prif Swyddog Technoleg |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Y Pwyllgorau Pwnc |

### Yr Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Lynsey Hazzard | Dirprwy Glerc |

### Yn bresennol:

Y Cynghorydd Jeff Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ian Benbow, Rheolwr Prosiect, Megabytes
Elwyn Thomas, Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol Cymru
Sheila Drury - Cadeirydd, ELWa
Grenville Jackson – Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyfathrebu, ELWa
Peter McAllister - Pennaeth Polisi Dysgu, ELWa

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Elin Jones ac Alun Cairns. Nid oedd unrhyw eilyddion.
2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at neges e-bost yr oedd hi wedi'i hanfon at yr Aelodau yn amlinellu casgliadau allweddol Adroddiad Pwyllgor Gweithdrefnau Ty'r Cyffredin ar "Joint Activities with the National Assembly for Wales". Argymhellid y dylid cynnal arbrawf cyfyngedig yn cynnwys Y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor o'r Cynulliad mewn perthynas â'r "expected arrival of a draft Bill applying to Wales". Bernid mai'r Mesur hwn oedd Mesur Trafnidiaeth Cymru. Er bod rhai materion gweithdrefnol yn aros i gael eu datrys, roedd yn awyddus i wybod a oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r mater mewn egwyddor.
3. Bu i'r Aelodau gytuno bod craffu ar y cyd ymlaen llaw â'r Pwyllgor Materion Cymreig yn ddymunol mewn egwyddor, yn arbennig oherwydd y byddai hyn yn golygu bod y ddau Bwyllgor yn cydweithio â'r un wybodaeth. Dywedodd y Cadeirydd y gallai hyn olygu 3-4 cyfarfod a byddai'n anochel yn faich ar amser yr Aelodau. Bu i'r Aelodau gytuno bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ei ystyried fel blaenoriaeth ond nodwyd y gallai'r amseru olygu na fyddai pob Aelod yn gallu mynychu pob cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hysbysu'r Aelodau ynghylch unrhyw ddatblygiadau.

**Eitem 2: Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy EDT2 07-04 (p1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur a chyfeiriodd at y cais oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r Pwyllgorau Pwnc ystyried y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy.
2. Ailadroddodd yr Aelodau eu hymrwymiad i egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, sef un o'r gofynion statudol ar y Cynulliad. Nodwyd bod llawer o ddogfennau amrywiol eisoes yn bodoli yn amlinellu polisïau clir a rhai cadarn y gellir eu cyfiawnhau mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy a dywedodd mai'r her fwyaf oedd eu rhoi ar waith.
3. Cydnabyddodd y Gweinidog hyn, a thynnodd sylw at y gwaith amrywiol a oedd eisoes yn mynd rhagddo. Cyfeiriodd at hyfforddiant sgiliau mewn perthynas ag adeiladu mewn ffordd effeithlon o ran ynni, a nododd fod y cynllun Gwasanaethau Awyr Rheolaidd o fewn Cymru yn cael ei ddatblygu o ran y defnydd o awyrennau effeithlon o ran ynni. Dywedodd hefyd y byddai sicrhau pwerau ar gyfer y Cynulliad fel y gallai ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig yn ddatblygiad arall. Dywedodd fod Cymorth Dewisol Rhanbarthol yn cael ei ailgyfeirio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â pholisïau'r Cynulliad. Cydnabyddodd fod traffig yn tyfu'n gyflymach yn

Nghymru nag ydoedd yng ngweddill y DU. Eto, er bod ystyried polisïau fel codi tâl am dagfeydd yn ddeniadol, ni fyddai ond yn bosibl cyflwyno'r rhain petai dewisiadau eraill derbyniol yn bodoli. Nododd fod ymwybyddiaeth y cyhoedd yn bwysig yn ogystal, fel y dangosodd y ffaith bod y cyhoeddusrwydd diweddar ynghylch y cynnydd mewn prisiau olew yn canolbwyntio ar yr effaith ar boced defnyddwyr yn hytrach nag ar y manteision amgylcheddol.

4. Bu i'r Aelodau nodi nifer o feysydd penodol yr oeddent yn eu hystyried fel blaenoriaethau.
5. Nid oedd llawer o gynlluniau hn yn cynnwys yr holl faterion perthnasol sy'n gysylltiedig â Datblygu Cynaliadwy ac roedd perygl y byddai'r egwyddorion yn mynd ar ddifancoll pan fyddai cynlluniau presennol yn cael eu rhoi o'r neilltu. Roedd yn bwysig sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o dan amgylchiadau o'r fath.
6. Yn yr un modd, roedd adeiladau a gynlluniwyd rhai blynyddoedd yn ôl yn debygol o fod yn seiliedig ar warchod ynni a safonau eraill na fyddai'n cael eu hystyried yn rhai perffaith yn awr.
7. Roedd angen hefyd sicrhau bod Datblygu Cynaliadwy yn agwedd allweddol ar waith Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn eu llythyrau cylch gwaith.
8. Wrth ddatblygu ynni adnewyddadwy roedd yn bwysig cydbwyso manteision lleihau gollyngiadau carbon ag unrhyw effaith negyddol bosibl o dyrbinau gwynt. Roedd twristiaeth yn un agwedd ar hyn, a dywedodd y Gweinidog fod Bwrdd Croeso Cymru wrthi'n ceisio gwerthuso a oedd gan dyrbinau gwynt effaith negyddol sylweddol ar dwristiaeth. Fodd bynnag, roedd angen hefyd ystyried effaith tyrbinau gwynt ar ardaloedd trefol a oedd yn ceisio adfywio eu hunain. Dywedodd y Gweinidog y byddai TAN 8 yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn – roedd y ffaith ei fod wedi cymryd cyhyd i'w wneud yn dangos y materion cymhleth iawn y bu angen eu hystyried. Bu i'r Aelodau bwysleisio'r ffaith mai gofyn allweddol unrhyw ddatblygiadau o'r fath yw bod caniatâd lleol ar eu cyfer.
9. Roedd yn bwysig pennu targedau ac amserlenni clir wrth hyrwyddo mesurau arbed ynni er mwyn sicrhau y gellir mesur a monitro eu hynt.
10. Wrth ddatblygu polisïau ar gyfer caffael bwyd o fewn y sector cyhoeddus roedd yn bwysig bod pwyslais ar gynnyrch iach yn hytrach nag ar ddarparu cymorthdaliadau cynhyrchu.
11. Er bod manteision clir yn deillio o bolisïau yn ymwneud â Datblygu Cynaliadwy, roedd yn bwysig cydnabod bod eu rhoi ar waith yn creu beichiau yn y tymor byr ar y bobl neu'r cyrff yr oedd yn rhaid iddynt wneud hyn. Roedd felly'n bwysig darbwyllo pobl ynghylch manteision y dull hwn.
12. Roedd yn bwysig cydnabod swyddogaeth trosglwyddo traffig nwyddau a theithwyr o'r ffordd i'r rheilffordd yn hyn o beth ac roedd angen datblygu strategaeth drafnidiaeth integredig.

## Eitem 3: Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau
## EDT2 07-04 (p2)

1. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a dywedodd ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith craffu ar y cynigion.
2. Dywedodd Dave Thomas fod 15 o ymatebion wedi'u derbyn i'r ymgynghoriad; derbyniwyd 12 ohonynt yn ystod yr ymgynghoriad a derbyniwyd 3 ar ôl hynny. Roedd yr holl ymatebion o blaid y ddeddfwriaeth.

3. Bu i'r Aelodau groesawu'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mynegwyd y pryderon canlynol gan rai Aelodau.
4. Holodd un Aelod ynghylch y cyswllt rhwng y cynigion newydd a thocynnau bws am ddim i bensiynwyr a thrafnidiaeth gymunedol. Dywedodd Dave Thomas nad oedd y Grant yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r cynllun tocynnau bws a oedd yn darparu cyllid i awdurdodau lleol. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i ehangu'r cynllun tocynnau bws i gynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol a byddai hyn yn denu cyllid rheolaidd o £1 miliwn, o 2005 ymlaen. Dywedodd Brian Gibbons fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfarfod â darparwyr Trafnidiaeth Gymunedol sawl gwaith er mwyn llunio cynllun ymarferol ac roedd y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Byddai syniadau gan y Pwyllgor yn cael eu croesawu.
5. Holwyd ynghylch geiriad is-adran (7)(ca) adran 4 a'r system gam-drin yr oedd yr adran yn anelu at ei hatal. Dywedodd Gwyn Griffiths ei fod yn fesur i atal gweithredwyr rhag hawlio arian grant ac yna gyflwyno eu hamodau eu hunain er mwyn darbwyllo teithwyr i beidio â theithio, fel codi prisiau uwch am arosfannau ychwanegol.
6. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Rheoliadau drafft, yn amodol ar y pryderon uchod.

**Eitem 4: Adolygiad Polisi: Anweithgarwch Economaidd - Trafnidiaeth Gymunedol**
**EDT2 07-04 (p3)**
**EDT2 07-04 (p4)**

1. Cyflwynodd Elwyn Thomas ei bapur a dywedodd fod yr egwyddor a oedd yn sail i'r Gymdeithas Drafnidiaeth Gymunedol (CTA) yn mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol a bod trafnidiaeth yn gallu cyflawni llawer iawn o ran newid bywydau pobl. Roedd yn rhaid deall anghenion cymunedau er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n llwyddo. Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol oedd y ffordd ymlaen a dylid datblygu llwybrau hyblyg. Roedd angen gwell partneriaethau a dylai cynlluniau gydweithio'n agosach â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu menter yn y gymuned. Ffefrid cyllid diogel dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd.
2. Cyflwynodd Jeff Edwards ei bapur a dywedodd fod ei brosiect, a ddechreuodd yn 1994, yn targedu pobl ifanc nad oedd ganddynt sgiliau na hyder na llawer o bosibiliadau o ran swyddi. Yn yr hirdymor gobeithid y byddai byrddau iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol yn prynu i mewn i'r cynllun er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer yr hirdymor. Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac arian Amcan Un oedd yn ariannu'r cynllun ar hyn o bryd.
3. Bu i'r Aelodau gyfeirio at sawl pryder yn ystod y drafodaeth ddilynol. Cytunwyd bod rhwystrau cymharol fach yn aml yn golygu nad oedd trafnidiaeth ar gael, a bod effeithiau hyn yn bellgyrhaeddol. Nid oedd yr Aelodau yn siwr a oedd prawfesur polisïau gwledig yn flaenoriaeth ynddo'i hun oherwydd bod materion trafnidiaeth eraill yr un mor bwysig yng nghymoedd De Cymru y gallai trafnidiaeth gymunedol helpu i'w datrys. Awgrymid y dylid meithrin gwell cysylltiadau â phartneriaid yn y sector preifat ac y gallai'r sector preifat noddi cynlluniau. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn copïau o [name of publication to be included] [Gweithredu: CTAW] Roedd cysondeb o ran cyllid yn destun pryder a dylid ystyried trefniadau ariannu eraill fel cytundebau lefel gwasanaeth a chyllid Cymunedau yn Gyntaf. Cyfeiriwyd yn ogystal at gysondeb ledled Cymru, gan nad oedd yn rhaid i grwpiau ddod yn Aelodau o CTAW.

Soniwyd am ddibynadwyedd gwirfoddolwyr, ac yn arbennig lle roedd angen trafnidiaeth ar weithwyr a oedd yn gweithio sifftiau oriau anghymdeithasol. Dywedodd Jeff Edwards ac Elwyn Thomas eu bod yn defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer eu cynlluniau, ond roedd y rhan fwyaf o yrwyr yn weithwyr a oedd yn derbyn tâl. Roedd hyn yn arwain at gyflogaeth leol gynyddol.

4. Yn dilyn y drafodaeth, cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'r materion a godwyd a allai fod yn sail i argymhellion yn y dyfodol:
5. Gallai amserlenni bysiau lleol fod yn ffactor allweddol. Er enghraifft, roedd gwasanaethau bysiau yn gorffen yn rhy gynnar mewn rhai ardaloedd a olygai na allai pobl sy'n teithio i'r gwaith ac oddi yna eu defnyddio.
6. Roedd angen ystyried prawfesur polisïau gwledig ond efallai nad dyma'r ateb, o gofio bod problemau cyffelyb yn bodoli mewn ardaloedd trefol.
7. Gallai partneriaethau â chwmnïau preifat a/neu drefniadau noddi ddatrys pryderon ynghylch cyllid.
8. Roedd cysondeb o ran cyllid yn ffactor pwysig yn llwyddiant cynlluniau trafnidiaeth gymunedol.
9. Roedd cynorthwyo pobl i deithio i apwyntiadau mewn ysbytai a meddygfeydd, drwy ddarparu trafnidiaeth gymunedol, yn arbed costau gwastraff i'r GIG sy'n deillio o apwyntiadau a gollir a hefyd yn helpu pobl i ddychwelyd yn gynt i fyd gwaith.
10. Gellid mabwysiadu dull strategol mewn perthynas â hyfforddi drwy'r system Cyfiawnder Ieuenctid.
11. Gallai cynlluniau trafnidiaeth gymunedol ynddynt eu hunain fod yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth yn y gymuned leol.
12. Gellid annog awdurdodau lleol i ganiatáu i gynlluniau trafnidiaeth gymunedol ddefnyddio eu fflyd o gerbydau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

## Eitem 5: Adolygiad Polisi: Anweithgarwch Economaidd - ELWa
## EDT2 07-04 (p5)

1. Cyflwynodd Sheila Drury y papur a dywedodd fod ELWa yn ymwybodol bod Anweithgarwch Economaidd yn hen broblem nad oedd yn hawdd i'w datrys. Roedd hefyd wahanol gategorïau o bobl anweithgar yn economaidd a olygai bod angen dull â gwahanol agweddau iddo. Roedd hyfforddiant mewn sgiliau yn bwysig ond ni fyddai'n datrys y broblem gyfan. Roedd yn ofynnol newid y pwyslais a byddai cydweithio ag asiantaethau amrywiol yn helpu pobl i ailddechrau dysgu yn y dyfodol. O fis Awst 2004 byddai Blwyddyn Weithredu Ddeuol a system Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol er mwyn sicrhau rhagor o bwysoliad o ran pobl mewn ardaloedd difreintiedig a phobl ag anghenion arbennig.
2. Cytunodd Grenville Jackson i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am darddiad daearyddol y 70,000 o fyfyrwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant sgiliau sylfaenol. [Gweithredu: ELWa]
3. Bu i'r Aelodau gyfeirio at sawl pryder yn ystod y drafodaeth ddilynol. Teimlid y dylid rhoi rhagor o flaenoriaeth i addysg Y Blynyddoedd Cynnar ac y dylid gwneud mwy i hyrwyddo cyrsiau Mynediad i addysg ôl 16. Dylid sicrhau na fyddai colegau â nifer llai o fyfyrwyr dan anfantais oherwydd y system ariannu newydd gan fod costau fesul myfyriwr yn uwch mewn ardaloedd gwledig yn sgîl y gymhareb myfyriwr : athro isel. Roedd angen dadansoddi'r pwysoliad ar boblogaeth denau/gwledigrwydd yn drylwyr. Roedd twristiaeth yn sector a fyddai o bosibl yn

elwa ar ragor o bwyslais ar hyfforddiant a chymwysterau a dylid gwneud mwy i annog cyflogwyr i ddarparu a chefnogi hyfforddiant mewn sgiliau ar gyfer eu gweithwyr. O ran y rhaglen Re-Act, dylid targedu darpar fuddiolwyr ynghynt tra'u bod yn ymgymryd â'u cyfnod rhybudd er mwyn annog pobl i ymuno â'r rhaglen. Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar gydweithio ag asiantaethau amrywiol gan gynnwys yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Canolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Yn dilyn y drafodaeth, cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'r materion a godwyd a allai fod yn sail i argymhellion yn y dyfodol:
5. Byddai'n ofynnol ymgymryd â gwaith dadansoddi trylwyr er mwyn cyfiawnhau unrhyw raglenni arbennig sy'n adlewyrchu materion daearyddol yn ymwneud â hygyrchedd.
6. Gallai darparu addysg ôl 16 yn lleol olygu bod gwahanol fodelau yn angenrheidiol.
7. Roedd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru wynebu'r sialensau anodd a oedd ynghlwm â chyrraedd darpar ddysgwyr.
8. Roedd angen gwneud mwy er mwyn cynnwys cyflogwyr mewn rhaglenni dysgu yn y gweithle.
9. Roedd angen rhoi rhagor o bwyslais ar ddysgwyr yr oedd angen mabwysiadu rhagor o sgiliau arnynt, gan fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd yn fwy addas i bobl sydd eisoes yn meddu ar lawer o sgiliau gan ei bod yn haws i'w ddarparu ac yn haws i sicrhau llwyddiant.
10. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y rhaglen Re-Act yn cael ei chyflwyno mewn gweithleoedd cyn gynted ag y cyhoeddir bod swyddi'n cael eu colli er mwyn sicrhau bod gymaint â phosibl o bobl yn ymrwymo i'r rhaglen a bod y manteision mwyaf yn cael eu sicrhau cyn bod y swyddi'n cael eu colli.
11. Roedd angen adnewyddu galwedigaethau mewn meysydd crefftus a sefydlu rhai yn eu lle.
12. Roedd dull unedig i'r sector cyfan ynghylch darparu cyfleoedd dysgu yn bwysig er mwyn galluogi'r defnydd gorau o adnoddau.

### Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod diwethaf
### EDT2 06-04 Cofnodion (drafft)

1. Nodwyd bod paragraff 3.4 o'r cofnodion yn cynnwys gwall teipograffyddol a oedd bellach wedi'i gywiro. Dylai'r frawddeg nodi "blaenoriaeth 5" yn hytrach na "blaenoriaeth 3".
2. Dywedodd Aelod nad oedd neb wedi ymateb i'r Pwynt Gweithredu ar gyfer y Gweinidog ym mharagraff 2.9.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau Mai 2004**